

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF
COUNTY BOROUGH COUNCIL

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal yn Council Chamber, The Pavilions, Cambrian Park. Clydach Vale, Tonypany, CF40 2XX
Dydd Iau, 22ain Mehefin, 2017 am 10.30 am

Dolen gyswllt: Hannah Williams (Rhif ffôn. 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn canol Dydd Mawrth, 20 Mehefin 2017. Mae hawl gan Gynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd i annerch yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais am annerch y Cabinet. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y Cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443 424062 neu anfonwch e-bost i Cabinet@rctcbc.gov.uk

MATERION I'W TRAFOD

1. DATGAN BUDDIANT

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Aelodau, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

Noder:

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

2. COFNODION

Cadarnhau cofnodion o gyfarfodydd Pwyllgor y Cabinet a gafodd eu cynnal ar 9 Mawrth 2017 a 15 Mawrth 2017.

(Tudalennau 5 - 60)

3. RHAGLEN WAITH Y CABINET

Derbyn adroddiad Ysgrifennydd i'r Cabinet sy'n rhoi'r rhestr arfaethedig ddiweddaraf o faterion sy'n rhan o Raglen Waith y Cabinet y mae angen eu trafod yn ystod Blwyddyn y Cyngor, 2017–18.

(Tudalennau 61 - 80)

4. ARDRETHI ANNOMESTIG – CYNLLUN RHYDDHAD ARDRETHI'R STRYD FAWR 2017/18

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau am y cynllun newydd gan Lywodraeth Cymru sy'n rhoi rhyddhad ardrethi i fathau penodol o fusnesau.

(Tudalennau 81 - 92)

5. STRATEGAETH DIGIDOL Y CYNGOR 2017-18 TAN 2019-20.

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadrn y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen sy'n egluro Strategaeth y Cyngor ar gyfer materion Digidol ('Digital RCT – Our 2020 Digital Vision') ar gyfer y cyfnod 2017–18 tan 2019–20.

(Tudalennau 93 - 122)

6. GORCHYMYN GWARCHOD MANNAU CYHOEDDUS

Derbyn adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr y Priffyrdd a Gofal y Strydoedd a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd sy'n rhoi gwybod i'r Aelodau am ddeilliannau'r broses ymgynghori â'r cyhoedd ac yn ceisio caniatâd i wneud Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus ar gyfer rheoli cŵn yn Rhondda Cynon Taf, yn amodol ar unrhyw ddiwygio posibl gan Aelodau yn seiliedig ar yr ymgynghoriad.

(Tudalennau 123 - 190)

7. MATERION BRYN

Trafod unrhyw faterion brys y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.



Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet

Cylchrediad:-

Y Cynghorwyr: A Morgan (Cadeirydd)
M Webber (Is-gadeirydd)
R Bevan
A Crimmings
G. Hopkins
M Norris
(Mrs) j. Rosser
R. Lewis
(Mrs) C. Leyshon

Swyddogion: Chris Bradshaw, Prif Weithredwr
Chris Jones – Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Christian Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Cabinet a Chysylltiadau Cyhoeddus
Chris Lee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng Flaen
Gio Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Tony Wilkins, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Colin Atyeo, Cyfarwyddwr Eiddo'r Cyngor a Chaffael
Esther Thomas, Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes
Jane Cook, Cyfarwyddwr Materion Adfywio a Chynllunio
Nigel Wheeler, Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Priffyrdd a Gofal y Strydoedd
Paul Mee, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd